# Datganiad Prosesu Teg ar gyfer Staff (Hysbysiad Preifatrwydd)

Pwrpas yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yw manylu ar ba wybodaeth bersonol a gesglir gan Brifysgol De Cymru a'i his-gwmnïau (y cyfeirir atynt fel Grŵp PDC a sut y defnyddir y wybodaeth hon.

Yn y datganiad hwn mae "Grŵp PDC", "ni" ac "ein" yn golygu Prifysgol De Cymru ac is-gwmnïau'r Brifysgol sef Professional and Support Services Limited, Y Coleg Merthyr Tudful a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Prifysgol De Cymru yw'r rheolydd data o ran gwybodaeth a gedwir am ei staff, ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA) a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UK GDPR).

Mae Grŵp PDC wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol a sensitif, gan weithio yn unol â deddfwriaeth diogelu data cyfredol. Rydym wedi cofrestru fel rheolydd data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan y rhif cofrestru Z6472800 ar gyfer Prifysgol De Cymru, Z9702162 ar gyfer Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Z2091473 ar gyfer Y Coleg Merthyr Tudful a ZB013039 ar gyfer Professional and Support Services Limited.

Mae manylion y sefydliad sy'n eich cyflogi ar eich contract cyflogaeth.

Mae gan Brifysgol De Cymru Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef drwy dataprotection@southwales.ac.uk

## Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu?

Yn ystod cyflogaeth unigolyn gyda Grŵp PDC, gallai'r mathau canlynol o wybodaeth gael ei chasglu a'i phrosesu:

- Manylion cyswllt, enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, llun, a gwybodaeth adnabod arall (rhif yswiriant gwladol a dyddiad geni)
- Gwybodaeth yn ymwneud â hawl i weithio yn y DU gan gynnwys pasbort, cymwysterau, sgiliau, profiad ac aelodaeth o gyrff proffesiynol
- Gwybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r ffurflen gais
- Manylion cyswllt y perthynas agosaf i'w defnyddio mewn argyfwng
- Manylion banc at ddibenion talu cyflog
- Gwybodaeth bersonol yn ymwneud â phrosesau a gweithdrefnau Grŵp PDC gan gynnwys disgyblu, cwynion, gallu, mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu, absenoldeb rhiant a mathau eraill o absenoldeb arbennig, ceisiadau am weithio hyblyg a pherthnasoedd personol ag aelodau eraill o gymuned PDC
- Ar gyfer staff rhyngwladol: Copïau o basbortau, fisas ac unrhyw ddogfennau eraill sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion UKVI

- Ffotograffau a lle bo'n berthnasol recordiadau o ddarlithoedd
- Gwybodaeth yn ymwneud ag atal a chanfod trosedd a diogelwch a diogelu staff, gan gynnwys teledu cylch cyfyng, logiau meysydd parcio a data mynediad drws
- Gwybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i chofnodi gan systemau Grŵp PDC sy'n cofnodi data lleoliad
- Gwybodaeth am ddefnydd TG a chyfathrebu e-bost, gan gynnwys gwybodaeth mewngofnodi ar gyfer ein systemau TG, cyfeiriad(au) IP, offer a ddyrennir i staff a chofnodion mynediad rhwydwaith
- Gwybodaeth yn ymwneud â chydnabyddiaeth taliad a thâl (gan gynnwys hanes cyflog, aelodaeth/taliadau pensiwn, statws treth a didyniadau o gyflog)
- Datganiadau o ddiddordeb mewn perthynas â gwaith a wnaed y tu allan i Grŵp PDC a manylion unrhyw roddion a lletygarwch a dderbyniwyd
- Cofnodion datblygiad (a hyfforddiant), Adolygu Perfformiad a Datblygiad, cofnodion arsylwi addysgu
- Aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n gysylltiedig â gwaith Grŵp PDC
- Manylion amserlennu a dyrannu llwyth gwaith, patrymau shifftiau a rhestrau dyletswyddau
- Gwybodaeth a gynhyrchir fel rhan o'r busnes o ddydd i ddydd mewn e-byst, gohebiaeth a chalendrau
- Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch gan gynnwys asesiadau risg, asesiadau Cyfarpar Sgrin Arddangos, cofnodion damweiniau a chofnodion hyfforddiant Iechyd a Diogelwch
- Rhif cofrestru'ch cerbyd, trwydded yrru, manylion yswiriant ac at ddibenion yn ymwneud â pharcio ar y safle
- Cofnodion ymchwil personol
- Gwybodaeth am ieithoedd a siaredir ac a ysgrifennir

Bydd Grŵp PDC yn prosesu data personol '**Categori Arbennig'** gyda'i gilydd lle bo'n briodol gyda data 'Collfarnau Troseddol'. Byddai hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth yn ymwneud â rhyw, hil, ethnigrwydd, credoau crefyddol, credoau athronyddol, statws priodasol a chyfeiriadedd rhywiol
- Cofnodion iechyd galwedigaethol ar gyfer staff sydd wedi'u cyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol
- Gwybodaeth yn ymwneud â salwch/absenoldeb
- Holiadur meddygol (dechreuwyr newydd) a chofnodion cadw gwyliadwriaeth ar iechyd mewn perthynas â swyddi priodol a'u deiliaid swydd
- Gwybodaeth a gedwir sy'n ymwneud ag ymadawyr lle mae'r rheswm yn ymwneud ag afiechyd, anaf neu anabledd
- Aelodaeth o undeb llafur lle telir tanysgrifiadau drwy'r gyflogres

- Cofnod o wiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â gofynion storio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Lle y bo'n briodol, gall Grŵp PDC ddal a phrosesu data personol mewn perthynas â throseddau a chollfarnau. Gallai'r wybodaeth hon gael ei chasglu yn ystod y broses recriwtio, ei darparu gan yr unigolyn neu drwy drydydd parti fel yr heddlu.

## Pam rydym yn casglu'r wybodaeth hon?

Mae'n rhaid i PDC gasglu data personol i fodloni nifer o ofynion:

- Gweinyddiaeth adnoddau dynol, ariannol ac ar gyfer darpariaeth pensiwn
- Cofnodi a chefnogi'r prosesau disgyblu, gallu a chwyno a sicrhau bod ymddygiad yn briodol o fewn Grŵp PDC
- Darparu gwasanaethau ar ran Grŵp PDC (e.e. os oedd staff yn gwneud gwaith drwy Wasanaethau Masnachol PDC)
- Darparu gwybodaeth ac ymateb i sefydliadau allanol megis CCAUC a HESA. Monitro cyfle cyfartal yn unol â deddfwriaeth ac arfer da
- Darparu geirdaon ar gais ar gyfer gweithwyr presennol a chyn-weithwyr
- Cynnal ymchwil a dadansoddiad ystadegol (e.e. cynllunio'r gweithlu)
- Monitro cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau Grŵp PDC
- Hyrwyddo gwasanaethau Grŵp PDC
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, diogelwch rhwydwaith a gwybodaeth gan gynnwys atal mynediad anawdurdodedig i'n systemau TG a chyfathrebu electronig ac atal dosbarthu meddalwedd maleisus
- Diogelu a hyrwyddo lles myfyrwyr
- Sicrhau iechyd, diogelwch eiddo a diogelwch personol staff a myfyrwyr
- Cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol Grŵp PDC
- Atal a chanfod trosedd
- I'w ddefnyddio mewn argyfwng

*Cedwir data personol Categori Arbennig er mwyn i Grŵp PDC allu cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol ac arfer hawliau penodol.*

- Sicrhau iechyd a diogelwch yn y gweithle a chydymffurfiaeth â gofynion adrodd i awdurdodau gorfodi
- Monitro a rheoli absenoldeb salwch, ffitrwydd i weithio a gweinyddu buddion sy'n ymwneud â thâl salwch/mamolaeth/tadolaeth statudol a phensiynau
- Darparu addasiadau priodol i'r gweithle
- Darparu cymorth galwedigaethol a lles i staff
- Monitro cyfle cyfartal yn unol â deddfwriaeth ac arfer da

- Cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth a gofynion deddfwriaethol a rheoliadol eraill sy'n berthnasol i Grŵp PDC

Cedwir data collfarnau troseddol yn unig lle mae'n ofynnol ac yn gyfreithiol i wneud hynny. Gallai hyn fod at y dibenion a ganlyn:

- Cydymffurfio â chyfreithiau cyflogaeth a chyfreithiau eraill
- Mewn ystyriaeth mewn perthynas â diogelu
- Er mwyn ystyried addasrwydd ar gyfer cyflogaeth neu gyflogaeth barhaus

## Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu?

Wrth brosesu data personol staff, mae Grŵp PDC yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol fel y bo'n briodol:

- Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni contract gyda gwrthrych y data (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i brosesu taliadau/treuliau, galluogi mynediad i systemau)
- Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wirio hawl unigolyn i weithio yn y Deyrnas Unedig, Cydymffurfio â chyfreithiau Iechyd a Diogelwch)
- Cyflawni tasgau a gyflawnir er budd y cyhoedd (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i addysgu ac ymchwil)

I brosesu data Categori Arbennig, mae Grŵp PDC yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol:

- Mae'r prosesu'n angenrheidiol am resymau budd cyhoeddus sylweddol ar sail Undeb neu Gyfraith Aelod-wladwriaeth (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fonitro cyfle cyfartal ac ar gyfer cynnal gwiriadau DBS)
- Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni rhwymedigaethau'r rheolydd neu wrthrych y data ym maes cyflogaeth (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i asesu addasrwydd i weithio, gwneud addasiadau rhesymol, cofnodi absenoldebau o'r gwaith, gweinyddu aelodaeth undeb llafur ac ati)
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol i ddiogelu buddiant hanfodol yr unigolyn neu berson arall

## Pwy yw'r derbynwyr neu'r categorïau o dderbynwyr?

Lle bo angen, rhennir gwybodaeth bersonol yn fewnol o fewn y cyfadrannau ac adrannau ar draws Grŵp PDC. Bydd rhannu o'r fath yn amodol ar gyfrinachedd protocolau a chyfyngiadau mynediad.

Bydd Grŵp PDC yn gwneud rhai datgeliadau statudol a rheolaidd o ddata personol i drydydd partïon lle bo'n briodol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif sefydliadau y gallwn ddatgelu data iddynt:

- Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)
- Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI)
- Cyllid a Thollau EM (CThEM)
- Cynlluniau pensiwn – gan gynnwys Pensiynau Athrawon (TP), Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), Chynllun USS, a Chynllun FlexHE
- Noddwyr/arianwyr ymchwil
- Undebau llafur
- Cyflogwyr posibl (lle gofynnir am eirda)
- Asiantaeth Budd-daliadau fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992
- Yr Asiantaeth Cynnal Plant fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gwybodaeth Cynnal Plant 2008 (rhif 2551)
- Gwefannau Grŵp PDC*
- Gwasanaethau'r Heddlu a Diogelwch, lle dilynwyd protocolau diogelu data priodol
- Yswirwyr Grŵp PDC
- Cyrff Proffesiynol/Rheoleiddio

*At ddibenion hyrwyddo bydd gwybodaeth fywgraffiadol gyfyngedig ar gael ar wefannau Grŵp PDC. Gall staff ddiwygio a llanlwytho'r wybodaeth hon yn ôl eu disgresiwn eu hunain.

Gellir datgelu data personol hefyd pan fo'n ofynnol yn gyfreithiol neu lle mae budd cyfreithlon, naill ai i Grŵp PDC neu wrthrych y data, gan ystyried unrhyw ragfarn neu niwed a allai gael ei achosi i wrthrych y data.

Gall Grŵp PDC hefyd ddefnyddio cwmnïau trydydd parti fel proseswyr data i gyflawni rhai swyddogaethau gweinyddol ar ran Grŵp PDC. Os felly, bydd contract ysgrifenedig yn cael ei roi ar waith i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddatgelir yn cael ei gadw yn unol â chyfreithiau diogelu data.

## Trosglwyddiadau i drydedd wlad a'r mesurau diogelu sydd ar waith

Mae data o brif systemau Grŵp PDC yn cael ei gadw a'i storio yn y Deyrnas Unedig. Lle caiff data ei brosesu y tu allan i Ewrop, bydd Grŵp PDC yn sicrhau bod mesurau diogelwch priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu'r wybodaeth hon a bod fframwaith cyfreithiol ar waith sy'n gwneud y trosglwyddiad hwn yn gyfreithlon.

Mae Grŵp PDC yn ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch dramor. Weithiau, datgelir peth gwybodaeth bersonol yn ymwneud â theithio, addysgu, ac ati.

Ar gyfer staff sy'n gweithio ar gampws Dubai PDC, datgelir data personol arferol sy'n gysylltiedig â dechreuwyr newydd a chyflogaeth gyffredinol i bersonau/awdurdodau priodol.

**Cadw data**

Bydd yr holl ddata a gedwir am weithgareddau PDC a'r holl ddata personol yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol yn unol ag Amserlen Cadw Grŵp PDC.

Adolygir yr Atodlen hon o bryd i'w gilydd a'i diben yw pennu am ba hyd y bydd gwybodaeth benodol yn cael ei chadw.

**Diogelwch data**

Cedwir gwybodaeth a data sy'n ymwneud â gweithgareddau cyffredinol Grŵp PDC (e.e. ymgynghori ag undebau llafur, trafodaethau polisi a gweithredu) yn unol â'r Atodlen Cadw mewn unedau storio priodol (cypyrddau ffeilio y gellir eu cloi).

Cedwir gwybodaeth bersonol ar systemau electronig diogel lle caiff mynediad drwy gyfrinair ei reoli'n llym, fel na all rheolwyr a staff weld dim ond y wybodaeth sy'n briodol iddynt ac sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni rôl y swydd. Cedwir ffeiliau personol a data sensitif arall (copi caled) mewn cypyrddau ffeilio y gellir eu cloi o fewn ystafelloedd dan glo ac sydd â mynediad cyfyngedig.

Ar hyn o bryd, anfonir data sy'n cael ei archifo at gyflenwr trydydd parti sydd wedi bodloni holl ofynion Grŵp PDC ar gyfer mesurau diogelwch a phrotocolau cadw.

**Eich hawliau**

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, i gywiro, i ddileu, i gyfyngu ac i drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol.

Ewch i dudalennau gwe Diogelu Data'r Brifysgol am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau.

Dylid gwneud unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i'r Brifysgol i'r Swyddog Diogelu Data:

Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol

Prifysgol De Cymru

Pontypridd

CF37 1DL

E-bost: dataprotection@southwales.ac.uk

Os ydych yn anhapus gyda'r ffordd y mae eich data personol wedi'i brosesu gallwch, yn y lle cyntaf, gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon yna mae gennych yr hawl i wneud cais yn uniongyrchol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
www.ico.org.uk

**Gwybodaeth Dogfen**

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Awdur** | **Adolygiad** |
|---|---|---|---|
| f1.0 | Mai 2018 | Robert Baker | Maiy 2019 |
| f.2.0 | Hydref 2019 | Diwygiadau | Hydref 2020 |
| f.3.0 | Mawrth 2021 | Diwygiadau | Mawrth 2022 |